



Penderfyniadau Cyllid a Thollau EM (CThEM) – beth i'w wneud os anghytunwch

Anghytuno â phenderfyniad CThEM

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi gwybod i chi beth allwch ei wneud os nad ydych yn cytuno ag un o'n penderfyniadau treth, a sut i apelio i'r tribiwnlys treth annibynnol. Mae'n berthnasol i benderfyniadau treth a wnaed ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009.

Mae'r daflen wybodaeth hon yn ymwneud â phenderfyniadau treth yn unig. Os yw'ch penderfyniad yn ymwneud â:

- credydau treth, dylech fynd i www.gov.uk/tax-credits-appeals-complaints
- Budd-dal Plant, dylech fynd i www.gov.uk/social-security-child-support-tribunal
- y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant, dylech fynd i www.gov.uk/child-trust-funds/overview
- dychwelyd nwyddau a atafaelwyd, dylech fynd i www.gov.uk/customs-seizures

Rhowch wybod i ni nawr os ydych yn anghytuno

Pan fyddwn yn gwneud penderfyniad y gallwch apelio yn ei erbyn, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi. Byddwn hefyd yn egluro sut y daethom i'r penderfyniad, ac yn rhoi gwybod i chi am eich hawl i apelio. Os na fyddwch yn cytuno â'r penderfyniad, ysgrifennwch atom i roi gwybod i ni ar unwaith, ond beth bynnag, cyn pen 30 diwrnod i'r penderfyniad. O ran materion treth uniongyrchol, gelwir hyn yn 'apelio i CThEM'. Nid oes raid i chi wneud hyn eich hun. Gall cyfrifydd neu ymgynghorydd arall wneud hyn ar eich rhan.

Os oes gennych ragor o wybodaeth neu os ydych o'r farn ein bod wedi methu rhywbeth, dylech roi gwybod i ni. Os gwnewch hynny, byddwn yn rhoi gwybod i chi a fydd yr wybodaeth yn newid ein penderfyniad, neu os na fydd yn newid ein penderfyniad, byddwn yn rhoi gwybod i chi pam. Caiff y rhan fwyaf o anghydfodau eu datrys drwy eu trafod â ni. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y gallwch ddatrys eich anghydfod drwy ddefnyddio'r Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (Alternative Dispute Resolution – ADR). Mae rhagor o wybodaeth am ADR yn nhaflen wybodaeth CC/FS21, 'Gwiriadau Cydymffurfio - Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod'. Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'CC/FS21'.

Beth i'w wneud os na allwn gytuno

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad ein trafodaethau, gallwch:

- gael eich achos wedi'i adolygu gan swyddog gwahanol i'r un a wnaeth y penderfyniad
- gael tribiwnlys treth annibynnol i wrando ar eich achos

Os byddwch yn dewis cael eich achos wedi'i adolygu, byddwch yn dal yn gallu apelio i'r tribiwnlys os byddwch yn anghytuno â chanlyniad yr adolygiad hwnnw.

Sut mae adolygiad yn gweithio

Gallwch ddewis p'un ai i gael adolygiad ai peidio. Naill ai:

- byddwn yn cynnig adolygiad i chi (os felly, bydd gennych 30 diwrnod i roi gwybod i ni eich bod am gael un)
- os nad ydym wedi cynnig adolygiad i chi, gallwch ofyn i ni gynnal un ar unrhyw adeg yn ystod ein trafodaeth ynglŷn â'r anghydfod

Os rhowch wybod i ni eich bod am gael adolygiad ar gyfer materion treth anuniongyrchol, byddwn yn ei gwblhau cyn pen 45 diwrnod, heblaw ein bod yn cytuno ar gyfnod arall gyda chi. Ar gyfer materion treth uniongyrchol, byddwn yn ei gwblhau cyn pen 45 diwrnod o'r dyddiad yr ydym yn cadarnhau ein barn ar y mater yr ydych yn apelio yn ei erbyn, oni bai ein bod yn cytuno ar amser arall gyda chi.

Cynhelir adolygiadau gan staff CThEM nad ydynt wedi bod yn ymwneud yn flaenorol â'r mater sy'n destun yr anghydfod. Cewch gyfle i gyflwyno rhagor o wybodaeth am eich achos. Ni allwch ofyn i'r tribiwnlys wrando ar eich achos tan fod y terfyn amser wedi bod, neu ein bod wedi rhoi gwybod i chi beth yw canlyniad yr adolygiad.

Unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod beth yw'r canlyniad, gan roi ein rhesymau. (Os na allwn gwblhau ein hadolygiad cyn pen 45 diwrnod, neu unrhyw gyfnod y cytunwyd â chi, byddwn yn ysgrifennu i roi gwybod i chi.) Yna bydd gennych 30 diwrnod i ofyn i'r tribiwnlys wrando ar eich achos.

Apelio i'r tribiwnlys

Os nad ydych am gael adolygiad, neu os nad ydych yn cytuno â chasgliad yr adolygiad, gallwch apelio i dribiwnlys. Mae'r tribiwnlys yn annibynnol a chaiff eich achos ei wrando gan farnwyr treth arbenigol ac/neu aelodau'r panel a benodwyd yn annibynnol. Gweinyddir y tribiwnlys gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd), sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

I apelio i'r tribiwnlys, fel arfer mae'n rhaid i chi ysgrifennu at y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd cyn pen 30 diwrnod o'n llythyr o benderfyniad. Neu, os ydych wedi dewis cael adolygiad, cyn pen 30 diwrnod o'n llythyr yn eich hysbysu am ganlyniad ein hadolygiad. I wneud hyn, gallwch:

- llenwi ffurflen apelio'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd sydd ar gael o wefan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd
- ffonio'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i ofyn am gopi
- ysgrifennu at y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd

Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd naill ai'n trefnu gwrandawriad i benderfynu ar eich apêl mewn achosion symlach, neu'n penderfynu'r apêl ar sail yr wybodaeth a anfonwyd gennych chi a gennym ni heb fod angen cynnal gwrandawriad. Os ydych am apelio i'r tribiwnlys, dylech wneud yn siŵr eich bod yn atodi copi o'r llythyr asesiad i'ch hysbysiad o apêl, neu hysbysiad arall yr ydych am apelio yn ei erbyn. Os na wnewch hynny, efallai na fydd y tribiwnlys yn ei dderbyn.

Mae rhagor o wybodaeth am dribiwnlysoedd a gwrandawriadau tribiwnlys ar gael ar wefan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Gweler 'Rhagor o help' isod.

Os ydych am i dribiwnlys wrando ar eich achos, a'i fod yn achos treth uniongyrchol, rhaid eich bod wedi apelio i ni yn gyntaf.

Talu treth yn ystod adolygiadau ac apeliadau

Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â mater treth uniongyrchol, fel arfer gallwch ofyn i ni ohirio rhan o'r dreth neu'r dreth gyfan sy'n destun anghydfod nes i'r apêl gael ei setlo. Gellir datrys apêl trwy gytundeb rhyngoch chi a CThEM neu gellir ei phenderfynu gan y tribiwnlys. Rhaid i chi wedyn dalu'r dreth sy'n ddyledus yn unol â phenderfyniad y tribiwnlys neu'r setliad a gytunwyd. Bydd llog yn parhau i gronni ar swm sydd wedi ei ohirio a threth nas talwyd, y bernir sy'n ddyledus pan setlir yr apêl neu pan fydd y tribiwnlys wedi gwneud ei benderfyniad.

Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â mater treth anuniongyrchol (ac eithrio materion Tollau), ni fyddwn yn casglu'r dreth sy'n destun anghydfod tra byddwn yn cynnal adolygiad o'r penderfyniad.

Fodd bynnag, fel arfer bydd yn rhaid i chi dalu'r dreth sy'n destun anghydfod cyn y gall y tribiwnlys wrando ar apêl. Petai talu'r dreth yn achosi caledi i chi, gallwch ofyn i ni beidio â'i chasglu tan i'r tribiwnlys benderfynu ar y mater. Os credwch fod hyn yn berthnasol i chi, rhowch wybod i ni. Bydd llog yn parhau i gronni ar unrhyw dreth rydych yn dadlau yn ei herbyn, ac unrhyw dreth nas talwyd y bernir sy'n ddyledus pan fo'r tribiwnlys wedi gwneud ei benderfyniad. Unwaith bydd y tribiwnlys wedi dod i benderfyniad, bydd yn rhaid i chi dalu'r dreth sy'n ddyledus yn unol â'r penderfyniad, hyd yn oed os oes apêl yn ei herbyn. Bydd CThEM yn talu unrhyw symiau sy'n ddyledus i chi yn unol â phenderfyniad y tribiwnlys ynghyd â llog, pan fo hynny'n briodol.

Os apeliwch yn erbyn penderfyniad y tribiwnlys mewn mater sy'n ymwneud â materion treth anuniongyrchol, gallwch ofyn i ni beidio â chasglu'r dreth petai ei thalu yn eich rhoi mewn sefyllfa ariannol fregus. Er enghraifft, drwy eich gwneud yn fethdalwr. Os oes apêl yn erbyn penderfyniad y tribiwnlys ac os credwn fod perygl na chawn ein talu, gallwn ofyn i'r Tribiwnlys Uchaf neu'r llys am ganiatâd i beidio â thalu neu ad-dalu unrhyw swm sy'n ddyledus i chi neu i ofyn am warant cyn i ni wneud hynny.

Rhagor o gymorth

I ganfod mwy am adolygiadau a'ch hawl i apelio, ewch i www.gov.uk/tax-appeals

I gael rhagor o wybodaeth am Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, gweler:

- Tribiwnlys Haen gyntaf, ewch i www.gov.uk/courts-tribunals/first-tier-tribunal-tax neu ffoniwch nhw ar 0300 123 1024
- Uwch Dribiwnlys, ewch i www.gov.uk/courts-tribunals/upper-tribunal-tax-and-chancery-chamber neu ffoniwch nhw ar 020 7612 9730

Petai'n well gennych siarad â ni, neu i gael copi argraffedig o unrhyw un o'n canllawiau, ffoniwch rif y llinell gymorth ar y Ffurflen Dreth neu ar y llythyr a anfonwyd atoch.

Delio â CThEM os oes gennych anghenion ychwanegol

Ewch i www.gov.uk/dealing-hmrc-additional-needs neu ffoniwch ein llinellau cymorth am ystod o wasanaethau, megis:

- mynediad â chadair olwyn i bron pob lleoliad ar gyfer apwyntiad
- help wrth lenwi ffurflenni
- Text Relay a dolenni sain - sydd ar gael ar gyfer pobl â nam ar eu clyw

Gallwn hefyd drefnu cymorth ychwanegol, megis:

- gwasanaethau cyfieithydd
- dehongliad drwy iaith arwyddion
- taflenni mewn Braille, ar sain ac mewn print bras

Am arweiniad a ffurflenni yn Gymraeg, ffoniwch:

- 0300 200 1900 ar gyfer 'treth uniongyrchol'
- 0300 200 3705 ar gyfer 'treth anuniongyrchol'

Unioni pethau

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd yr ydym wedi ymdrin â'ch materion treth, er enghraifft oherwydd oedi neu gamgymeriadau, rhowch wybod i'r unigolyn neu'r swyddfa yr ydych wedi bod yn delio ag ef/hi. Os nad ydynt yn gallu unioni pethau mewn ffordd sy'n eich bodloni, gofynnwch i'ch achos gael ei gyfeirio at y Rheolwr Cwynion. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Complain to HMRC'. Fel arall, cysylltwch â ni. Gallwch ddod o hyd i ni yn y Llyfr Ffôn o dan 'HM Revenue & Customs'.

Yn y daflen wybodaeth hon mae 'treth uniongyrchol' yn cynnwys

- Treth Flynyddol ar Anheddau wedi'u Hamgáu (ATED)
- Treth Enillion Cyfalaf
- Treth Gorfforaeth
- Cynllun cyfranddaliadau ar sail cyflogeion
- Treth Incwm
- Treth Etifeddiant
- Cyfraniadau Yswiriant Gwladol
- Treth Refeniw Petrolwm
- Treth Dir y Tollau Stamp
- Treth Tollau Stamp Wrth Gefn
- Taliadau statudol
- Ad-daliadau Benthyciadau Myfyrwyr
- Cynlluniau arbed treth (penderfyniadau ynglŷn â chosbau sy'n ymwneud â hysbysiadau dilynol a thaliadau cyflymedig)

Mae hefyd yn cynnwys treth a gasglwyd o dan gynllun Talu Wrth Ennill (TWE) a Chynllun y Diwydiant Adeiladu.

Yn y daflen wybodaeth hon mae 'treth anuniongyrchol' yn cynnwys

- Ardoll Agregau
- Toll Teithwyr Awyr
- Tollau Alcohol Gwirodydd
- Cynllun Cofrestru Cyfanwerthwyr Alcohol (o fis Hydref 2015 ymlaen)
- Toll Trwydded Peiriannau Diddanu
- Toll Bingo
- Ardoll Newid yn yr Hinsawdd
- Penderfyniadau Gwrthderfysgaeth
- Tolldaliadau
- Toll Hapchwarae
- Toll Fetio Gyffredinol
- Toll Olewau Hydrocarbon
- Treth Premiwm Yswiriant
- Treth Dirlenwi
- Toll y Loteri
- Toll Peiriannau Hapchwarae
- Penderfyniadau gwyngalchu arian
- Toll Cronfa Fetio
- Toll Hapchwarae o Bell
- Treth Cynhyrchion Tybaco
- Treth Ar Werth (TAW)

Mae apeliadau yn erbyn hysbysiadau gwybodaeth penodol ac yn erbyn cosbau am beidio â chydymffurfio â hwy yn dilyn y broses dreth uniongyrchol.

Nid yw'r daflen wybodaeth hon yn cynnwys penderfyniadau ynglŷn â pheidio â dychwelyd nwyddau a atafaelwyd neu gytuno i ddychwelyd nwyddau, p'un a ydynt yn destun amod ai peidio.